

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae hanner y modiwl hwn yn ymwneud â modelu llifau hylifol syml, ac mae'r hanner arall yn ymwneud â dulliau mathemategol cysylltiedig. Yn yr hanner sy'n ymwneud â dulliau, bydd myfyrwyr yn astudio datrys hafaliadau gwahaniaethol arferol a hafaliadau gwahaniaethol rhannol megis: hafaliad Laplace, hafaliad tonnau a'r hafaliad tryledol; rhywfaint o ddamcaniaeth maes factor; a dadansoddiad Fourier. Bydd yr agweddau mecanyddol hylifol ar y modiwl yn rhoi gwybodaeth ymarferol dda i fyfyrwyr am foddelu yng nghyd-destun hylifol. Dylent feddu ar wybodaeth gadarn am y canlynol: hafaliadau gwahaniaethol arferol; calcwlws factor ac integrynnau lluosrif; mecaneg gronynnau syml; a rhywfaint o wybodaeth am ddatrys hafaliadau gwahaniaethol rhannol a chyfres Fourier, fel sy'n cael ei haddysgu ym modiwlau MST207/MST209/MST224/MST210.

Manyleb person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd dda mewn mathemateg, ffiseg neu bwnc cysylltiedig
- gwybodaeth am fecaneg hylifol a dulliau mathemategol cysylltiedig
- diddordeb mewn addysgu mathemateg gymhwysol
- y parodrwydd i addysgu myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd sydd â lefelau gwahanol o wybodaeth fathemategol.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu mathemateg gymhwysol
- profiad o diwtora ar gyfer Y Brifysgol Agored ym maes mathemateg, gwyddoniaeth neu dechnoleg.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan*

*Gwybodaeth ychwanegol*

Gan y bydd gan fyfyrwyr ar y modiwl hwn ddewis i gyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy'r system eTMA, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynwyd yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, ar y ffurf ragnodedig, i'r system eTMA. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael pe byddech yn cael eich penodi i'r rôl.

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	3
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safon:	15
Band cyflog:	2
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	2.5